| MEWNBYNNAU | Arweinyddiaeth a Diwylliant | Rheoli Data ac Iechyd y Boblogaeth | Cyllid ac Adnoddau | Y Gweithlu | Cynnwys y Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|
| CAMAU GWEITHREDU | Penodi Hyrwyddwr Tegwch Iechyd i arwain ac eiriol dros gynllunio a chyflawni rhanbarthol ar y penderfynyddion ehangach yn ogystal â chamau gweithredu uniongyrchol. | Ymgorffori tegwch, cydraddoldeb ac iechyd cynhwysiant mewn Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, Cynlluniau Llesiant, a Chynlluniau Ardal Rhanbarthol, a sicrhau bod y rhain yn llywio blaenoriaethau strategol blynyddol. | Cydlynu cyllid ar draws awdurdodau lleol, y trydydd sector, a phartneriaid eraill i dargedu buddsoddiad yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.<br><br>Sicrhau bod mecanweithiau ariannu yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a galluogi dulliau buddsoddi ar y cyd sy'n cefnogi gwelliannau cynaliadwy mewn cymunedau sydd ag anghenion mawr. | Eiriol dros yr hyfforddiant tegwch sydd ar gael i sefydliadau sy'n aelodau, a chodi ymwybyddiaeth ohono | Cydweithio â **Chlystyrau** i nodi a gweithredu dulliau sy'n seiliedig ar leoliad o fewn Cynlluniau Ardal Rhanbarthol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau bod anghenion ac asedau'r gymuned yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau ranbarthol.<br><br>Sicrhau bod Gofal Sylfaenol yn cael cynrychiolaeth weithredol ar lefel y Bwrdd. |